

Arian, arian, arian

Ffynnu

YN Y RHIFYN HWN

MYFYRIO: sut rydych yn ystyried arian?

Magu doethineb ariannol

Cynghorion gwych i'ch helpu ar eich taith

CYLLIDAU BYWYD GO IAWN

Dowch i gyfarfod â Hollie-Mai a Brandon

Gofynnoch chi, atebasom ninnau

Datrys eich problemau gyda Matt

**ŷ
Rhwydwaith
Maethu**

YR HOLL WYBODAETH

Am y cynllun incwm peilot ar gyfer pobl sy'n ymadael â gofal



Yr holl wybodaeth i chi

YN Y RHIFYN HWN O Ffynnu...

Mae arian yn gwneud i'r byd weithio

ond sut rydych chi'n ystyried arian?

3

A ydych chi'n ariannol wybodus? sut i gynilo arian a llawer mwy.

4

Gofynnwch i Matt mae Matt yn ôl gyda'r atebion i'ch cwestiynau am arian.


6

Cynllun peilot incwm sylfaenol: yr holl wybodaeth a sgwrs â'r Gweinidog.

8

Cyllidau bywyd go iawn mae Hollie-Mai a Brandon yn rhannu'u profiadau.

10



Helô!

Croeso i rifyn arall o Ffynnu. Y tro hwn, rydym yn canolbwyntio ar rywbeth y mae arnom oll ei angen, y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn hoffi mwy ohono, ac y bydd llawer ohonom yn pryderu am beidio â chael digon ohono – arian!

I lawer o bobl ifanc â phrofiad gofal, gall y pontio i oedolaeth deimlo'n neilltuol o ddychrynlyd o ran arian, oherwydd yn aml nid oes ganddynt yr un systemau cymorth ar waith ag sydd gan lawer o'u cyfoedion (weithiau, gelwir hyn yn 'banc mam a dad'). Mae'r rhifyn hwn o Ffynnu yn ceisio rhoi sylw i rai o'r ofnau hynny, ac mae'n edrych ar beth sydd ar gael i'ch helpu chi – ffyrdd o gael yr arian y mae gennych hawl iddo a sut i wneud yn sicr eich bod yn gwario'r arian hwnnw cystal â phosibl. Cawn hefyd olwg ar gynllun peilot sy'n golygu bod llygaid y byd ar Gymru – y cynllun incwm sylfaenol peilot ar gyfer pobl sy'n ymadael ag ysgol yng Nghymru.

Dywed cân adnabyddus mai 'arian sy'n gwneud i'r byd fynd rownd.' Yn anffodus, gall hynny yn aml iawn deimlo'n wir, ac mae'n hawdd teimlo'n ddrwg amdanom ein hunain os ydym yn ei chael hi'n anodd yn ariannol. Ond cofiwch beth a ddywedodd y dyn peniog Albert Einstein yna: 'Nid popeth y gellir ei gyfrif sy'n cyfrif, ac ni all popeth sy'n cyfrif gael ei gyfrif.'

Ffynnu 😊

O.N.: Mae yna lawer iawn o rifynnau o Ffynnu ar-lein gyda chynghorion am bopeth, yn amrywio o gynllunio llwybr i berthnasoedd iach. Canfyddwch nhw yn bit.ly/TFNThrive.

Mae arian yn gwneud i'r byd fynd rownd

Beth rydych yn ei feddwl o arian? Darllenwch y tri dyfyniad hyn a meddyliwch am ba un sy'n disgrifio beth rydych chi'n ei deimlo am arian.



"Pan oeddwn yn ifanc, credwn mai arian oedd y peth pwysicaf mewn bywyd; yn awr fy mod yn hen, gwn ei fod."

Oscar Wilde

"Mae gormod o bobl yn gwario arian nad ydynt wedi'i ennill, i brynu pethau nad oes arnynt eu heisiau, i wneud argraff ar bobl nad ydynt yn eu hoffi."

Will Smith

"Ni wnaeth arian erioed neb yn hapus, ac ni fydd yn gwneud 'chwaith, nid oes dim yn ei natur i gynhyrchu hapusrwydd. Po fwyaf ohono sydd gan rywun, y mwyaf y mae rhywun eisiau."

Benjamin Franklin

Y cwestiwn miliwn o bunnau

Pan ddaw hi'n fater o arian, mae yna fel arfer ddwy ochr i'r hafaliad – faint o arian rwyf yn ei wario a faint rwyf yn ei gynilo. Un o'r cwestiynau mwyaf cyffredin sydd gan bobl ifanc (a phobl hŷn!) yw'r cwestiwn miliwn o bunnau: 'Sut y gallaf gynilo mwy o arian?'

Mae yna bedair prif ffordd o helpu'ch arian i ledaenu ymhellach, gan olygu y gallech gynilo ychydig ar hyd y daith, hefyd:

- **Gwario llai!** Gall hyn deimlo'n ddrys yn ystod argyfwng 'costau byw', ond drwy wirio a chymharu prisiau'n ofalus, defnyddio talebau a diddymu unrhyw danysgrifiadau nas defnyddir, gallwch wneud i'ch arian fynd ymhellach.
- **Ei ennill o.** Wrth gwrs, bydd arnoch eisiau/angen gwario rhywfaint o'ch enillion ar eitemau a phethau hanfodol rydych yn eu mwynhau, ond mae rhoi ychydig yn eich cyfrif cynilo bob tro y ceuwch eich talu neu rydych yn derbyn arian yn syniad da os gallwch.
- **Gwerthu pethau.** Mae gwerthu eitemau diangen yn ffordd wych o gael gwared ag annibendod a gwneud arian ychwanegol. Mae yna gynifer o wefannau ac apiau y gallwch werthu drwyddynt, ond bydd gofyn ichi fod yn ofalus i sicrhau eich bod yn ennill arian ac nid yn ei golli. Gwiriwch yr erthygl hon: bit.ly/3Wb2SuA
- **Rhoddion.** Yn hytrach nag anrhegion, efallai y gallech ofyn am arian ar gyfer eich pen-blwydd neu ryw achlysur arbennig arall.

Mae gwybod lle y caiff pob punt ei gwario yn gam cyntaf gwyb i gynilo arian. Gwiriwch y canllaw cynllunio cyllideb MoneyHelper i'ch helpu i wneud hynny: bit.ly/3Yd4u8J

Cymeradwyaeth fawr i...

I bobl o Fwrdd Cynghori ar Brofiad Gofal Pobl Ifanc Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru, sef Daniel Sinclair, Hollie-Mai, Brandon, Lee Phillips, Jane Hutt, Aelod o'r Senedd, Y Gweinidog dros Cyfiawnder Cymdeithasol, ac Alun Richards. Heb eich cyfraniadau chi, ni allem greu'r cylchgrawn hwn o gwbl. Diolch!

Cyda llaw, os hoffech ddylanwadu ar beth rydym yn ei wneud yma yn Y Rhwydwaith Maethu, ac ar beth a roddir yn Ffynnu, gallech ymuno â'n Bwrdd Cynghori ar Brofiad Gofal Pobl Ifanc Cymru. Anfonwch e-bost at charlotte.wooders@fostering.net i ganfod mwy o wybodaeth.

Cysylltwch â ni

Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru

33, Heol y Gadeirlan,
Caerdydd CF11 9HB
029 2044 0940

Cysylltwch â: wales@fostering.net



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Credyd am y Delweddau: ValuaVitaly / iStock / Getty Images Plus; AaronAmat / iStock / Getty Images Plus; yacobchuk / iStock / Getty Images Plus; gorodenkoff / iStock / Getty Images Plus; Tirachard / iStock / Getty Images Plus; monkeybusinessimages / iStock / Getty Images Plus; fizkes / iStock / Getty Images Plus; monkeybusinessimages / iStock / Getty Images Plus

Y
Rhwydwaith
Maethu

A ydych yn ariannol wybodus?

Lle i fynd i'r ysgol, pa ddielladau rydych yn eu gwisgo, pa ffôn rydych yn ei ddewis, sut y gallech deithio, lle rydych yn byw – yn y rhain i gyd, ac mewn cynifer o bethau eraill, mae gan arian rôl hanfodol. Gall pryderu am arian effeithio ar eich iechyd meddwl a'ch perthasoedd, ac felly mae dysgu sut i ofalu amdano yn sgil bywyd hanfodol.



Rydym i gyd mewn sefyllfaoedd ariannol gwahanol, ond mae'n bwysig gwybod, beth bynnag yw'ch statws ariannol cyfredol, y gall pethau newid ac na ddylech ganiatáu i'ch cyllidau eich atal rhag cael breuddwydion mawr ar gyfer y dyfodol.

Mae deall arian, sut i gyllidebu, lle i'w gael, sut i'w arbed a pha gymorth sydd ar gael ichi oll yn bwysig iawn. Fe'i gelwir yn bod yn **ariannol alluog**, ac mae arnoch wir angen bod. Efallai yn wir bod eich ysgol yn eich cefnogi gyda hyn (ac mae'r cwricwlwm newydd i ysgolion Cymru yn golygu y bydd yn rhaid iddynt – gweler bit.ly/3Yeixem), a disgwylir i'ch gofaluwr maeth eich helpu i reoli'ch arian. Dylid hefyd siarad am allu ariannol yn eich cynllunio llwybr.

Dechrau arni...

Dyma rai adnoddau gwych i'ch helpu i wella'ch gallu ariannol:

- Lle da i ddechrau ar gyfer eich holl gwestiynau am arian yw MoneyHelper. Mae'n wefan a weithredir gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, ac mae'n gyforiog o wybodaeth ac adnoddau defnyddiol: bit.ly/3ImTiB9
- Mae'r gwerslyfr 'Your Money Matters' ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed, ac mae'n cwmpasu pynciau sy'n cynnwys gwario a chynilo, cael benthyg, dyled, yswiriant, cyllid i fyfyrwyr a chynllunio ar gyfer y dyfodol: bit.ly/3Hqj4DR
- Mae gan y *Share Foundation* lawer o adnoddau defnyddiol sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc mewn gofal, yn cynnwys y rhaglen *The Stepladder of Achievement* sy'n edrych ar sgiliau bywyd a gallu ariannol: bit.ly/3ZS2bZR
- Cydweithiodd Plant yng Nghymru a Voices from Care Cymru ar y Prosiect Paratoi, sy'n canolbwyntio ar adeiladu gallu ariannol pobl ifanc. Mae yna lwythi o adnoddau gwych sy'n cwmpasu pynciau megis cyllidebu, budd-daliadau, tai a siopa call: bit.ly/3WecYed

A wyddech?

Mae gan bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn barhaus am fwy na blwyddyn gyfrif cynilo cyfnod hir wedi'i agor ar eu rhan gan y llywodraeth (sy'n rhoi £200 ym mhob un cyfrif pan y'i hagarir). Mae'r Share Foundation yn gofalu am y cyfrifon hyn tan y bydd person ifanc yn cyrraedd 18, pan fo mynediad a rheolaeth o'r cyfrif yn trosglwyddo iddyn' nhw.

Gallai'r cynllun cynilo fod yn ISA lau neu'n Gronfa Ymddiriedolaeth Plant, ond y naill ffordd neu'r llall, bydd yna rywfaint o gynilion yn bodoli ichi. Gallai faint o arian a gynilir ac o le y daw'r arian hwnnw amrywio, er bod llawer o wasanaethau maethu yng Nghymru yn gweithio tuag at swm o gynilion y cytunwyd arnynt fesul plentyn. Mae rhai gwasanaethau maethu'n mynd â'r cynilion yn uniongyrchol o'r lwfans y mae gofaluwr maeth yn ei dderbyn, ac mae eraill yn cyfrannu cronfeydd ychwanegol i helpu i adeiladu'r cyfrif cynilo ar gyfer pan fo ar berson ifanc angen cael ato. Anogir gofaluwr maeth a phobl ifanc i gyfrannu tuag at y cyfrifon hyn, hefyd.

Canfyddwch fwy o wybodaeth yn: sharefound.org

Am y brifysgol? Sicrhewch eich bod yn 'ticio'r blwch'



Os oes gennych brofiad gofal ac rydych yn gwneud cais i brifysgol, mae'n wirioneddol bwysig eich bod yn ticio'r blwch ar eich ffurflen UCAS sy'n dweud eich bod wedi treulio amser mewn gofal. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn cael y cymorth y mae gennych hawl iddo – o bosib, cynnig is, cymorth ariannol ac efallai lle drwy'r flwyddyn gyfan mewn llety prifysgol. Edrychwch ar classcymru.co.uk am fwy o wybodaeth.

Dysgwch oddi wrth Lee

Sefydlwyd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddarparu un man sy'n cwmpasu popeth, o arian poced i bensiynau.

Mae Lee Phillips yn gweithio i MaPS yng Nghymru, ac felly mae hi'n berson ardderchog i roi awgrymiadau a chynghorion gwych inni am arian...

'Mae rhai pobl yn credu eu bod yn anobeithiol gydag arian, ond dim ond oherwydd nad ydych wedi bod yn dda gydag arian yn y gorffennol, nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid i bethau fod felly yn y dyfodol. Wrth ichi dyfu ac mae'ch bywyd yn newid, gallai'ch agwedd tuag at arian hefyd newid.

'Mae arnoch angen meddwl am y gwahaniaeth rhwng y pethau y mae arnoch eu heisiau a'u hangen. Bydd hyn yn eich helpu i gyllidebu, sy'n bwysig iawn. Mae pob un ohonom yn gwneud camgymeriadau gydag arian, ond po gyntaf y gallwn wneud y camgymeriadau hyn a dysgu oddi wrthynt, y lleiaf o siawns sydd yna o wneud camgymeriad a allai gael effaith gyfnod hir arnom.

'Mae pawb yn pryderu am godiadau mewn costau byw. Byddwn i'n awgrymu siarad am arian – po fwyaf y siaradwn amdano a chwalu'r tabŵ, y mwyaf y gallwn rannu'n pryderon a chael y cymorth y mae arnom ei angen.

'Os ydych yn ei chael hi'n anodd parhau i dalu biliau a thaliadau, peidiwch â phryderu – nid ydych ar eich pen eich hun. Rydym yn helpu cannoedd o filoedd o bobl gyda phryderon tebyg bob blwyddyn. Gallwch gysylltu ag arbenigwr a chanfod cyngor cyfrinachol, am ddim yn awr gan ddefnyddio'n hoffer lleoli cyngor ynghylch dyled MoneyHelper am ddim: bit.ly/3VOd50c




Lee Phillips o MaPS

Cynghorion gwych Lee

- Os gallwch **ddod i ddeall yr hanfodion** gyda'ch arian yn awr, yna byddwch yn ei chanfod hi'n haws taro'r nodau arian mawr hynny yn ddiweddarach mewn bywyd.
- **Dechreuwch ar y llwybr iawn** – dowch i ddeall pa arian sydd gennych yn dod i mewn, beth sy'n cael ei wario ac i beth y mae gennych hawl, ac wedyn lluniwch gyllideb. Gall gwneud cyllideb wythnosol eich helpu i gael darlun mwy eglur o'r costau y mae arnoch angen eu talu.
- **Darllenwch ein canllaw** ynglŷn â chynnal eich hun yn ariannol: bit.ly/3HpJTs1
- Os gallwch, ceisiwch **ddatblygu'r arfer o gynilo**. Mae rhoi arian o'r neilltu'n rheolaidd ar gyfer eich bywyd yn y dyfodol yn arfer da i'w ddatblygu, ac mae'n rhoi crochan o arian ichi'i ddefnyddio mewn argyfwng, ond yn bwysicach na dim, mae'n eich cael i ddod i arfer â chynilo.
- **Gwiriwch a oes gennych Gronfa Ymddiriedolaeth Plant** – gallai fod yna dros £1,000 yn aros i chi i'w hawlio! Gwylwch y fideo hwn am fwy o wybodaeth: bit.ly/3HtSyKO
- **Byddwch yn ofalus o sgamiau** – gall sgamiau ddigwydd mewn llawer o ffyrdd, ond maent i gyd wedi'u cynllunio i gael gafael ar eich arian. Mae'n bwysig gwybod sut i adnabod sgam a beth i'w wneud os credwch eich bod wedi'ch targedu neu eich bod wedi dod yn ddiodesfwr. Canfyddwch fwy o wybodaeth yn: bit.ly/3hgEp8a
- **Gochelwch rhag benthycwyr arian didrwydded** – mae benthycwyr arian didrwydded yn ymddangos yn gyfeillgar a pharod eu cymorth pan ydych yn anghenus, ond mae'r math hwn o roi benthyg yn anghyfreithiol, a gallai gostio llawer mwy ichi nag a feddyliwch. Cofiwch nad ydych mewn trafferth os ydych wedi cael benthyg arian gan siarc benthyg arian. Cysylltwch ag Atal Siarcod Benthyg Arian Cymru am gyngor neu i roi gwybod am siarc benthyg arian: stoploansharkswales.co.uk
- **Deall eich sgôr credyd** – rhifyn credyd sgôr sy'n codi neu'n gostwng, yn dibynnu ar beth a wnaethoch yn y gorffennol a'r presennol gydag arian, yn enwedig pan ddaw hi'n fater o fenthyciadau a chardiau credyd. Mae adeiladu sgôr credyd da yn bwysig oherwydd y gall effeithio ar eich gallu i gael benthyg arian neu i gael at gynnyrch megis cardiau credyd neu fenthyciadau. Gallwch wirio'ch sgôr am ddim, ac os nad yw ar ei orau, mae yna bethau y gallwch eu gwneud i'w wella: bit.ly/3Htsajb
- Os oes arnoch eisiau **siarad â rhywun am eich cyllidau**, siarad â'ch gofaluwr maeth, cynghorydd personol neu ewch i wefan MoneyHelper.



Gwario gormod



CRwyf yn 19, rwyf ar Pan Fydda i'n Barod (WiR), ac mae gen i swydd yn helpu mewn cegin bwyty. Nid yw'r arian yn rhy ddrwg, ond rwyf yn ei chael hi'n anodd yn ariannol ac rwyf yn mynd i ddyled. Credaf mai'r prif broblem yw fy mod wrth fy modd yn bwyta ac na allaf wrthsefyll pâr newydd o esgidiau ymarfer. A allwch chi helpu?

Dywed Matt: Y peth pwysig yw eich bod wedi cydnabod bod arnoch angen gweithredu yn hytrach na mynd i ragor o ddyled. Mae'n bwysig iawn eich bod yn siarad â'ch gofalwyr maeth neu'ch cynghorydd personol, a chwilio am gymorth.

Mae yna ddau brif beth ichi eu hystyried. Y cyntaf yw datrys eich dyled ac wedyn mae arnoch angen meddwl am reoli arian yn well ar gyfer y dyfodol.


Os ydych mewn dyled, mae gwneud dim byd ond yn ei waethygu. Dywedwch wrth eich gofalwyr maeth, cytunwch ar y camau i glirio'r ddyled, gwnewch y peth yn flaenoriaeth yn anad popeth arall, a pheidiwch â chymryd eich temtio i ddefnyddio credyd cost uchel, byrdymor. Defnyddiwch y gwasanaeth cyngori ar ddyledion ar MoneyHelper (gweler tudalen pump), ond hefyd gwiriwch y cyngorion sydd gan yr elusen Cyngor ar Bopeth: bit.ly/3D8ifNe

Wedyn, mae arnoch angen cymryd amser i lunio cyllideb. Eto, dylai'ch gofalwyr maeth allu'ch helpu gyda hyn – a bydd arnoch angen gofyn iddynt eich dal chi'n atebol am yr arian rydych yn ei wario. Mae rheoli arian yn swnio'n ddiflas, ond mae'n sgil hanfodol, fel yw gwybod y gwahaniaeth rhwng beth mae arnoch ei angen a beth mae arnoch ei eisïau. Gweler tudalen pump am fwy o gyngorion ynghylch cyllidebu.

Mae'r rhain yn gamau caled, ond gyda'r cymorth iawn, gallwch ei wneud o!

GOFYNNNOCH CHI, ATEBOM NINNAU

Mae Matt yn ei ôl i helpu gyda'ch problemau



Wedi cael fy sgamio

CNi wn beth i'w wneud. Cefais alwad ffôn a swniodd yn wirioneddol fel petai oddi wrth fy manc. Fel mae'n digwydd bod, nid y banc oedd yna, ac fe roddais rai o fy manylion personol iddynt. Yn awr, mae arian wedi'i wario ar fy ngherdyn banc. Rhowch gymorth!

Dywed Matt: Mae cael eich sgamio yn brofiad gwirioneddol erchyll. Y peth cyntaf y mae arnoch angen ei wneud yw cysylltu â'ch banc YN AWR. Peidiwch ag aros, cysylltwch â nhw ar unwaith. Bydd gan y banc dîm cymorth gyda thwyll a all eich helpu. Byddant yn atal unrhyw daliadau yn rhagor, byddant yn rhoi cerdyn newydd ichi (a gallwch chithau bennu cyfrinair newydd), a byddant yn ymchwilio i'r hyn a ddigwyddodd.

Yn ogystal â gwefan MoneyHelper a grybwyllir ar dudalen pump, mae gan Cyngor ar Bopeth adran wych ar eu gwefan am beth i'w wneud os ydych wedi'ch sgamio: bit.ly/3QFO19S

Mae hyn yn cynnwys eglurhad am sut y gallech gael eich arian yn ôl. Gallwch hefyd ffonio Cyngor ar Bopeth, Advicelink Cymru ar 0800 702 2020 os oes arnoch angen mwy o gymorth â hyn.

Unwaith rydych wedi ffonio'r banc, dylech siarad â rhywun am gael eich sgamio – yn ddefnyddol, eich gofalwyr maeth, ond gallwch hefyd ffonio Cymorth i Ddiodefwr ar 08 08 16 89 111. Nid yw cael eich twyllo gan sgam yn ddim i fod cywilydd ohono, mae'n digwydd i filoedd o bobl, ond gall wneud ichi deimlo'n ofnadwy, ac felly mae siarad amdano yn bwysig.

A chofiwch, yn y dyfodol, peidiwch byth â rhoi'ch manylion personol i neb os nad ydych yn sicr pwy ydynt. Byddwch yn effro a chadwch yn ddiogel!

CRwyf ar fin cyrraedd 18 ac rwyf wedi penderfynu symud i fyw'n annibynnol. Gallaf goginio a gofalu amdanaf fy hun, ond rwyf yn gwirioneddol bryderu am wneud penderfyniadau ariannol da. Pa gyngor a roddech imi?

Dywed Matt: Yn gyntaf oll, mae'n wych eich bod yn meddwl am y pethau hyn yn awr. Nid yw gwneud penderfyniadau ariannol call yn beth hawdd, mae pawb yn gwneud camgymeriadau, ac rydych yn dysgu gan mwyaf o brofiad. Fodd bynnag, mae yna lawer o bethau y gallwch eu gwneud i'ch helpu i baratoi ac i fagu'ch hyder.

Dylai fod gennych gynllun llwybr sy'n nodi'n eglur y camau y mae arnoch angen eu cymryd a'r cymorth y mae arnoch ei angen wrth ichi'i hanelu hi at annibyniaeth. Os nad oes gennych gynllun llwybr, neu os nad yw wedi'i ddatblygu'n iawn, dylech siarad â'ch gofalwyr maeth neu'ch cynghorydd personol. Gallech hefyd godi hyn yn eich adolygiad nesaf.

Gyda'ch gofalwyr maeth neu'ch cynghorydd personol, gwnewch restr o'r sgiliau y mae arnoch eu hangen i'ch helpu i wneud penderfyniadau da – cyllidebu, ceisiadau am swyddi, rheoli'ch cyfrif banc, coginio ar gyllideb, ac yn y blaen. Wrth ochr pob eitem, penderfynwch pa weithred y mae arnoch angen ei chymryd a pha gymorth y bydd arnoch ei angen. Gall eich gofalwr maeth neu'ch cynghorydd personol eich helpu i adnabod pwy a all eich cynorthwyo.

Peidiwch ag anghofio, yn 18 oed, fe fyddwch yn berson sy'n ymadael â gofal, ac mae yna gyfrifoldeb cyfreithiol ar yr awdurdod lleol i ddarparu cefnogaeth a chymorth ariannol ichi, felly dylech gael datganiad sy'n amlinellu'ch hawliau fel person sy'n ymadael â gofal.

Pob bendith!

A wna'f ymdopi?



A oes gennych broblem? Mi gewch ateb y gallwch ymddiried ynddo, yn y fan hon yn awr



CRwyf wedi bod yn byw gyda fy ngofalwyr maeth ers tair blynedd bellach. Rwyf yn 15. Y broblem yw nad ydynt yn rhoi digon o arian poced imi oherwydd eu bod yn dweud beth bynnag y maent yn ei roi i mi, fe fydd yn rhaid iddynt ei roi i'w mab 14 mlwydd oed. Ni chredaf fod hynny'n deg? Ydi o?

Dywed Matt: Mae gan bob person ifanc a phob teulu farnau gwahanol am arian poced, a gall greu tyndra p'un a ydych yn derbyn gofal neu beidio. Dyma rai pethau a allai helpu i ddatrys y sefyllfa:

- **Pan ydych yn rhan o deulu (maeth neu beidio), mae ar bawb angen teimlo'i fod yn cael ei barchu a'i drin yn deg** – ac yn eich achos chi, bydd ar eich gofalwyr maeth eisïau bod yn deg â chi, ond hefyd â'u mab yn ogystal. Bydd gan bob aelwyd reolau gwahanol yn ymwneud ag arian poced; nid yw rhai teuluoedd yn ei wneud, mae rhai yn gwneud, mae rhai teuluoedd ond yn cynnig gwobr ariannol fel tâl am gyfrannu tuag at wneud gwaith tŷ. Mae pob teulu yn unigryw, nid oes yna gywir neu anghywir, ac felly pam na ofynnwch am gyfarfod teuluol i siarad am ganfod cyfaddawd?
- **Beth rydych yn ei olygu gan 'ddigon'?** A oes yna bethau penodol y teimlwch y mae arnoch angen yr arian poced hwn ar ei gyfer? Gallech lunio rhestr o'ch anghenion a'u trafod gyda'ch gofalwyr maeth.
- **Os ydych yn teimlo yr hoffech fwy o arian, gallech ystyried gwneud cais am waith penwythnos yn eich ardal leol.** Mae yna reolau ynglŷn â faint o oriau y gallwch weithio yn 15 oed, ac felly gall eich gofalwyr maeth eich helpu i ganfod mwy o wybodaeth am hyn.
- **Os siaradwch â'ch gofalwyr maeth ac rydych yn teimlo nad ydynt yn gwrandao arnoch,** gallech grybwyll hyn yn eich adolygiad nesaf.

Dadleuon ynglŷn ag arian poced

Incwm Sylfaenol – ‘blanced ddiogelwch’

Parhewch i ddarllen i ganfod gwybodaeth am y cynllun incwm sylfaenol peilot i bobl sy'n ymadael â gofal yng Nghymru, a pham mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi cymaint o arian ynddo.

Beth yw'r cynllun incwm sylfaenol peilot?

Mae incwm sylfaenol yn swm gwarantiedig o arian a roddir gan y llywodraeth i dalu costau'ch anghenion sylfaenol. Yn y cynllun peilot hwn, fe'i rhoddir i bobl sy'n ymadael â gofal sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru ac a fydd yn cyrraedd 18 oed rhwng y 1^{af} o Orffennaf, 2022 a'r 30^{ain} o Fehefin, 2023. Nid yw o bwys os ydych mewn coleg neu'n gweithio, ac nid oes yna amodau wrtho!

Yn y cynllun peilot hwn, fe gewch £1,280 y mis (ar ôl treth) am ddwy flynedd. Fe'i telir i mewn i'ch cyfrif banc, naill ai'n fisol neu ddwywaith y mis.

Pam mae'r cynllun incwm sylfaenol peilot yn cael ei gynnig i bobl sy'n ymadael â gofal?

Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio deall p'un a allai ymestyn yr amser y maent yn cynorthwyo pobl sy'n ymadael â gofal gael effaith gadarnhaol ar lwyddiant a rhyddineb dechreuad eu taith fel oedolion. Mae arnynt eisiau defnyddio'r canfyddiadau i'w helpu i gynnig y cymorth gorau posibl i bobl sy'n ymadael â gofal yn y dyfodol.

I beth y mae'n da?

Y peth gwyb am incwm sylfaenol yw ei fod yn arian sydd wedi'i warantu, ac fe allwch ei wario ar y pethau y mae arnoch eu hangen (a gobeithio bod â rhywfaint yn weddill ar gyfer ychydig o foethusrwydd a chynilo).

Oherwydd eich bod yn derbyn cryn lawer o arian bob mis, mae'n wirioneddol bwysig eich bod yn gwneud yn sicr eich bod mor ariannol alluog ag y bo modd (gweler tudalennau pedwar a phump).

Sut rwyf yn cofrestru?

Yn anffodus, dim ond cynllun peilot yw hwn ar hyn o bryd, ac felly mae yna reolau caeth ar gyfer pwy sy'n gymwys (gweler uchod). Os ydych yn addas i'r meini prawf, dylai'ch gweithiwr cymdeithasol neu'ch cynghorydd personol gysylltu â chi cyn eich pen-blwydd yn 18 oed. Mae yna rai meini prawf eraill, ond peidiwch â phryderu – bydd eich awdurdod lleol

neu'ch cynghorydd personol yn gallu eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun i'ch helpu ar hyd y daith.

Os ydych yn cymryd rhan yn y cynllun peilot, gofynnir ichi roi adborth ynglŷn â sut mae'n gweithio i chi.

Beth am arian arall a gaf? A effeithir ar hwnnw?

Y newyddion da yw bod yr arian hwn ar ben unrhyw incwm arall a gewch o waith. Fodd bynnag, bydd yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau a gewch, ac felly dylech gael cyngor ynglŷn â hyn, dim ond i wirio y byddech yn well eich byd ar yr incwm sylfaenol.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn darparu cynghorydd penodedig i bob awdurdod lleol ar gyfer y bobl ifanc sy'n gymwys ar gyfer y cynllun peilot. Bydd y cynghorydd hwn yn gweithio â'r person ifanc ar y 'cyfrifiad gwell eich byd', a bydd wedyn ar gael i gynnig cyngor a chymorth ariannol unigol.

Ni fyddaf yn cyrraedd 18 tan ar ôl y 30^{ain} o Fehefin, 2023, pam rwyf wedi colli hyn?

Diben treial, fel yr un hwn, yw profi a yw'n gweithio gyda grŵp bychan o bobl – gyda'r gobaith y gellid wedyn ei gynnig i bawb. Yn anffodus, golyga hyn y bydd rhai pobl yn methu'r terfynau amser o drwch blewyn. Mae yna grochanau eraill o arian efallai y bydd gennych hawl iddynt, fel Cronfa Dydd Gŵyl Dewi (gweler isod), ac felly ewch am sgwrs â'ch cynghorydd personol neu weithiwr cymdeithasol i gael cyngor.

Cronfa Dydd Gŵyl Dewi

Mae Cronfa Dydd Gŵyl Dewi yn cynorthwyo pobl ifanc sydd â phrofiad gofal, 16-24 oed, i gael at gyfleoedd fydd yn eu harwain tuag at fywydau annibynnol a llwyddiannus. Gellir defnyddio'r arian ar gyfer pob math o bethau, megis i dalu am gyfarpar cyrsiau, gwersi gyrru neu gymorth ariannol ar gyfer sefydlu cartref. Dylech drafod y posibiladau gyda'ch gofalwr maeth neu'ch cynghorydd personol.

Gofynnwch i'ch gweithiwr cymdeithasol neu'ch cynghorydd personol am fwy o wybodaeth.



Dowch i gyfarfod â'r Gweinidog

Jane Hutt, Aelod o'r Senedd, yw'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru, sy'n golygu mai hi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y cynllun Incwm Sylfaenol peilot. Gwnaethom siarad â Jane am beth mae hi'n ei obeithio y bydd y cynllun Incwm Sylfaenol peilot yn ei gyflawni:



'Roedd arnom eisiau canolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc sy'n ymadael â gofal i ddeall yr heriau unigryw y maent yn eu hwynebu wrth ddechrau ar oedolaeth, ac roeddem yn teimlo y gallai cymorth ychwanegol wrth iddynt gyrraedd 18 oed ddarparu sylfaen gadarnach iddynt adeiladu'u bywyd fel oedolyn. Credwn y gallai'r incwm sylfaenol roi mwy o gyfleoedd a rhoi gwell cyfle i bobl ifanc lywio drwy'r opsiynau sydd o'u blaenau.

'Yn anffodus, gwyddom y bydd rhai pobl ifanc yn colli'r cynllun peilot, ond rydym yn gwrandao ar gymaint o adborth â phosibl, yn cynnwys mynychu cyfarfodydd pobl ifanc â phrofiad gofal.

'Mae'n rhy gynnar bod yn sicr, ond mae nifer addawol iawn wedi derbyn y cynnig. Bydd y cynllun peilot yn cael ei fonitro'n agos iawn i weld sut mae'r incwm sylfaenol wedi helpu â lles, sicrwydd ariannol a siawnsis bywyd. Mae'n rhy gynnar dweud a fydd y cynllun peilot yn cael ei ymestyn, gan y bydd yn rhaid iddo gael ei werthuso. Erbyn yr adeg y bydd y rhaglen hon wedi'i chwblhau, byddwn yn nesáu at etholiadau ar gyfer y Senedd, ac felly bydd hefyd yn dibynnu ar gyllidebau a maniffestos.

'Gobeithiaf fod y cynllun peilot hwn yn arwydd o le y rhown ein blaenoriaethau. Mae arnom eisiau gweld Cymru yn datblygu fel cenedl decach, fwy cynaliadwy, ac mae lles a llesiant ein pobl ifanc sydd â phrofiad gofal yn hanfodol i hynny. Mae hyn yn rhan o'n agenda gyntaf i blant, sy'n dweud na ddylai plant a phobl ifanc fod o dan anfantais oherwydd eu hamgylchiadau wrth dyfu i fyny.

'I mi, os yw'r cynllun peilot yn llwyddiannus, bydd pobl ifanc yn gallu gwneud dewisiadau mewn bywyd, bod ag iechyd a lles meddwl parhaus a gwell, bod â theimlad o annibyniaeth ac yn gwybod bod gennym falchder ynddynt fel pobl ifanc yn tyfu i fyny yng Nghymru.'

Bywyd go iawn:

Cyllidau



Hollie-Mai

'Helô. Hollie-Mai ydw i ac rwy'n 20. Rwyf wedi bod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol ers pan oeddwn yn 14. Rwy'n gweithio ar hyn o bryd mewn canolfan ieuencid. Rwyf hefyd yn astudio seicoleg plentyndod yn Y Brifysgol Agored. Fy mwriad yw bod yn weithiwr cymdeithasol diogelu.

'Gallaf weld y gall y cynllun peilot incwm sylfaenol roi cyfleoedd, ac ni fydd yn rhaid ichi bryderu am arian, sy'n fendigedig, ond credaf y gallai annog pobl i beidio â gweithio. Byddwn yn hoffi arian – awn dramor, gan mai'r lle pellaf rwyf i wedi bod yw Blackpool.

'Rwy'n gweithio â llawer o bobl ifanc, y mae llawer ohonynt â phrofiad gofal, ac rwy' pryderu am y diffyg cymorth o amgylch y cynllun peilot oherwydd y bydd llawer o'r bobl ifanc hyn yn hynod agored i niwed. Bydd eu cyfeillion yn gwybod amdano ac yn gofyn am arian neu am fynd allan am bryd o fwyd. Mae 'Na' yn air anodd ei ddweud.

'Mae bod â'r holl arian hynny yn y banc yn ormod o demtasiwn. Os gwariwch o i gyd gyda'i gilydd, yna nid oes gennych ddim ar ôl am weddill y mis.

'Mae gennym i gyd broblemau gydag arian – mae gen i, mae gan bawb rwy'n ei adnabod. Yr unig addysg ariannol a gefais oedd gan fy ngofalwyr maeth. Roedd yn rhaid iddynt fy addysgu sut i gyllidebu. Byddai'n dda pe gallai pob gofalwr maeth ddechrau gwneud gwersi gyda'u pobl ifanc – dangos iddynt sut i goginio, glanhau, cyllidebu.

'Byddwn yn dweud wrth unrhyw berson ifanc: "Cymerwch unrhyw gymorth y gallwch ei gael, hyd yn oed os nad yw'n ymddangos yn berthnasol. Byddwch yn gybydd! Cadwch y rheiny rydych yn eu caru yn agos, gwrandewch ar oedolion, a gwnewch beth mae arnoch ei angen i oroesi."

Brandon

'Helô. Brandon ydw i ac rwy'n 18 ac rwyf wedi bod mewn gofal ers pan oeddwn yn bedair oed. Rwyf yn dal i fyw gyda fy ngofalwr maeth ar Pan Fydda i'n Barod. Rwy'n hoffi chwarae rygbi a mynd allan gyda fy nghyfeillion. Rwyf yn y coleg yn astudio plymio a thrydanol. Gobeithiaf gael prentisiaeth ac wedyn cymhwyso fel plymwr. Hoffwn gael fy nghwmni fy hun un diwrnod.

'Clywais am y cynllun incwm sylfaenol pan wnaeth y cyngor gysylltu â mi, ac rwy'n hapus iawn fy mod arno. Mae'r arian yn gymorth mawr ac mae'n rhoi



mwy o gyfleoedd i gynilo, cael hwyl, prynu pethau hyfryd. Yn bersonol, byddai'n well gen i petai'n llai o arian bob mis ac yn para am dair blynedd fel ei fod yn para imi drwy goleg. Nid wyf yn sicr beth fyddwn wedi'i wneud yn ariannol pe na bawn ar y cynllun. Mae'n debygol y byddwn wedi cael budd-daliadau tai.

'Rwyf wedi agor cyfrif ar wahân i gynilo fy arian, oherwydd fel arall, efallai y byddwn yn ei wario! Rwy'n ceisio cynilo cymaint ag y gallaf bob mis am y ddwy flynedd, fel y gallaf, gobeithio, roi blaendal am rywbeth pan symudaf allan. Gallai hynny hyd yn oed fy helpu i sefydlu fy musnes fy hun.

'Pan oeddwn yn ieuengach, gwnaeth fy ngofalwr maeth agor cyfrif banc arall imi gynilo arian am ddillad. Mae hi hefyd yn fy helpu i ystyried beth mae arnaf angen ei wario mewn gwirionedd fel fy mod yn gallu canfod beth y gallaf ei wario ar fwynhau fy hun.

'Byddwn yn dweud wrth bobl ieuengach na mi am fwynhau'r arian tra eu bod yn ifanc, ond wrth ichi nesáu at 18, dechreuwch gynilo arian a pheidio â gwario'ch arian ar bethau nad oes arnoch eu hangen.'

